

Ymchwiliad Annibynnol CF
Independent QC Investigation
Ffôn / Telephone: 07811 652122
e-bost / e-mail: enquiries@iqci.org.uk
29 Awst 2018

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Y Fonesig Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

Neil Hudgell, Hudgells Solicitors

Cc: David Richards, Cyfarwyddwr Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost

Annwyl Syriaid,

Ymchwiliad Annibynnol Cwnsler y Frenhines - ymgynghoriad ar oedi'r cam casglu tystiolaeth

Ysgrifennaf ymhellach i'm llythyr dyddiedig 2 Awst 2018 lle y gofynnais am eich sylwadau ar gamau nesaf yr Ymchwiliad. Ers y llythyr hwnnw, fel y gwyddoch, mae Mrs Sargeant wedi cyflwyno cais am Adolygiad Barnwrol.

Nod y cais am Adolygiad Barnwrol yw herio'r Protocol Gweithredol, sy'n rheoli gweithdrefn yr Ymchwiliad, gan gynnwys pŵer yr Ymchwilydd i gymell tystion a chynhyrchu tystiolaeth.

O gofio y bydd cyfreithlondeb y Protocol Gweithredol yn cael ei ystyried yn awr gan yr Uchel Lys, mae Mr Bowen CF wedi penderfynu atal yr Ymchwiliad nes bod yr Adolygiad Barnwrol wedi dod i'w benderfyniad terfynol. Ni fyddai'n briodol cymryd unrhyw gamau pellach yn yr Ymchwiliad, gan gynnwys cael tystiolaeth, mewn amgylchiadau lle, os bydd yr Adolygiad Barnwrol yn llwyddiannus, y gallai'r Protocol Gweithredol gael ei ddileu ac y gall gweithdrefn yr Ymchwiliad a phwerau'r Ymchwilydd newid.

Mewn perthynas ag unrhyw ddyddiadau ar gyfer gwrandawladau, diolch i bob parti am nodi pryd y mae ar gael. Fel y nodwyd yn flaenorol, yn seiliedig ar argaeledd pob parti, ymddengys mai'r cynharaf y gellid cynnal unrhyw wrandawliad fyddai ym mis Mawrth neu fis Ebrill 2019. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r Adolygiad Barnwrol, ni fyddai'n briodol pennu unrhyw ddyddiadau ar gyfer gwrandawladau nes bod hynny wedi cael ei benderfynu. Felly, unwaith y bydd yr Adolygiad Barnwrol wedi dod i ben, byddwn yn troi at y parti'ion eto i ofyn pryd y maent ar gael.

Gallaf gadarnhau y byddwn yn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus yn fuan i gadarnhau y caiff yr Ymchwiliad ei atal nes bod yr Adolygiad Barnwrol wedi dod i ben ac na fydd yr Ymchwiliad yn derbyn unrhyw dystiolaeth bellach yn y cyfamser.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn uniongyrchol i drafod cynnwys y llythyr hwn pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir

Charlotte Haworth Hird
Cyfreithiwr yr Ymchwiliad